

Minutes of the **Planning and Amenities Committee** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, Bangor on **Monday 17 October 2016** at 6.30 p.m.

PRESENT: - His Worship The Mayor Councillor Dewi Williams
Councillors G O Roberts (Vice-chairman) J Wynn Jones Mrs J Marshall
Mrs D Bulled C King R K Marshall
Mrs J Forsyth D Llewelyn Mair Rowlands

Officer: - Mr Ian Jones, Town Clerk

96/16 APOLOGIES

Apologies for absence were received from The Deputy Mayor, Councillor D Hainge (Cardiff) and Councillors Mrs E Butler (unwell), Mrs L Day (infection), D Madge (holiday), J M Martin (holiday), N Pickavance (family matter), and E H Williams (unwell).

97/16 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION

None.

98/16 URGENT BUSINESS

- a) The Town Clerk informed the Committee that three Members were required to read at the Remembrance Sunday Service on 12th November 2016.
RESOLVED that the Readings be made by The Mayor, Councillor Dewi Williams, Councillors John Wynn Jones and Jean Forsyth.
- b) The Town Clerk asked for any comments on the proposed BT telephone box removals either through him or to BT direct.
- c) It was noted that the provision of Memorial Benches on the Pier had become uneconomic due to the cost of maintenance and the Town Clerk asked Members for a sabbatical on this provision in order that a new policy be considered.
RESOLVED that the provision of Memorial Benches be suspended to enable the Town Clerk to assess viable cost-effective options for the future.

99/16 NORTH WALES POLICE

The Committee received a presentation by Inspector Owain Llewelyn dealing with the following matters:-

- Police Resources
- Recent Crime Figures
- Intelligence and Operation
- Drug Issues
- Begging in the vicinity
- HMO's and housing matters
- Neighbourhood Watch Schemes
- Preparations for forthcoming events
- CCTV provision
- North Wales Police Consultation - 1 November, Nant Porth Stadium
- Police Officers engagement with Ward Members
- Crime figures and Victim Support
- 101 and 999 distinctions and concerns

Inspector Llewelyn responded to questions on these matters.

The Chairman thanked Inspector Llewelyn for his interesting and informative presentation.

100/16 PLANNING APPLICATIONS

RESOLVED: that the Gwynedd Planning Authority be advised that the City Council have the following observations to make on the applications listed below: -

C16/1171/11/LL Erection of a single storey rear extension. 20 Bryn Llwyd, Ffordd Caernarfon, Bangor. **No objection.**

C16/1175/11/LL Installation of an ATM machine (retrospective application). Home Bargains Ffordd Caernarfon, Bangor. **No objection.**

C16/1196/11/LL Conversion of ground floor commercial unit to two bedroom apartment. 372 High Street, Bangor. **No objection.**

C16/1199/11/CC Felling of four coniferous trees within an area covered by a tree preservation order. 26 Llys Adda, Bangor. **The City Council had no objection in principal, particularly if the trees in question had no significant orders placed upon them. It was suggested that the qualified Tree Officer's recommendations be adhered to. Also if appropriate replacement trees be planted.**

Councillor Mrs J Marshall, as a Member of the Gwynedd Council Planning Committee, did not vote and took no part in the discussion on any of the above applications apart from the applications within her own Ward.

101/16 HIGHWAY MATTERS

None.

102/16 LICENSING MATTERS

Sex Shop Licence – Nice ‘n’ Naughty, 27 High Street, Bangor – **RESOLVED that the City Council object to the issue of the Licence on the grounds of protection of children from harm.**

Premises Licence – Convenience, 114 High Street, Bangor - **No objections.**

103/16 INVOICES FOR PAYMENT

It was **RESOLVED** that the invoices as detailed on the schedule totalling £24,054.91 be approved and passed for payment.

The Meeting closed at 7.40 p.m.

Cofnodion Cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, **Nos Lun, 17 o Hydref, 2016** am 6.30 y.h.

PRESENNOL :-

Ei Deilyngdod y Maer y Cynghorydd Dewi Williams			
Y Cynghorwyr (G O Roberts Is-gadeirydd)	J Wynn Jones	Mrs J Marshall	
Mrs D Bulled	C King	R K Marshall	
Mrs J Forsyth	D Llewelyn	Mair Rowlands	

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

96/16 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddiwrth Y Dirprwy Faer y Cynghorydd D Hainge (Caerdydd), a'r Cynghorwyr Mrs E Butler (salwch), Mrs L Day (haint), Doug Madge (gwyliau), J M Martin (gwyliau), N Pickavance (mater teuluol), ac E H Williams (salwch).

97/16 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

98/16 MATERION BRYS

- Hysbysodd Clerc y Dref y Pwyllgor fod angen tri Aelod i ddarllen yng Ngwasanaeth Sul y Cofio ar 12 Tachwedd 2016. **PENDERFYNWYD** y byddai'r darlleniadau'n cael eu gwneud gan y Maer, y Cynghorydd Dewi Williams, a'r Cynghorwyr John Wynn Jones a Jean Forsyth.
- Gofynnodd Clerc y Dref am unrhyw sylwadau ar y bwriad i symud blwch ffôn BT, naill ai drwyddo ef neu i BT yn uniongyrchol.
- Nodwyd fod darparu Meinciau Er Cof ar y Pier wedi mynd yn ddrud oherwydd costau cynnal a chadw a gofynnodd Clerc y Dref i'r Aelodau am gael seibiant ar y ddarpariaeth hon er mwyn gallu ystyried polisi newydd. **PENDERFYNWYD** atal darparu Meinciau Er cof am y tro fel bod Clerc y Dref yn gallu asesu opsiynau cost-effeithlon hyfyw ar gyfer y dyfodol.

99/16 HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan yr Arolygydd Owain Llewelyn a fu'n trafod y materion canlynol:-

- | | |
|--------------------------------------|---|
| • Adnoddau'r Heddlu | Paratoi ar gyfer digwyddiadau sydd ar y gweill |
| • Ffigyrau Tor-cyfraith Diweddar | Darparu CCTV |
| • Cudd-wybodaeth a Gweithredu | Ymgynghoriad Heddlu Gogledd Cymru - 1 Tachwedd, Nantporth |
| • Problemau Cyffuriau | Swyddogion yr Heddlu'n ymgysylltu ag Aelodau Ward |
| • Cardota yn y cyffiniau | Ffigyrau trosedd a Chymorth i Ddiodefswyr |
| • Tai Amlfeddiannaeth a materion tai | Gwahaniaethau rhwng 101 a 999 a'r pryderon |
| • Cynlluniau Gwarchod Cymdogaeth | |

Bu'r Arolygydd Llewelyn yn ateb cwestiynau ar y materion hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygydd Llewelyn am ei gyflwyniad diddorol ac addysgiadol.

100/16 CEISIADAU CYNLLUNIO

PENDERFYNWYD : Hysbysu Awdurdod Cynllunio Gwynedd mai'r canlynol yw sylwadau Cyngor y Ddinas ar y ceisiadau a restrir isod :-

C16/1171/11/LL Codi estyniad unllawr cefn. 20 Bryn Llwyd, Ffordd Caernarfon, Bangor. **Dim gwrthwynebiad.**

C16/1175/11/LL Gosod peiriant codi arian (cais ôl-weithredol). Home Bargains Ffordd Caernarfon, Bangor. **Dim gwrthwynebiad.**

C16/1196/11/LL Trosti uned fasnachol llawr gwaelod yn fflat deulofft. 372 Stryd Fawr, Bangor. **Dim gwrthwynebiad.**

C16/1199/11/CC Torri pedair coeden gonifferaidd sydd o fewn ardal gorchymyn gwarchod coed. 26 Llys Adda, Bangor. **Nid oedd Cyngor y Ddinas yn gwrthwynebu mewn egwyddor, yn enwedig os nad oedd gan y coed dan sylw orchmynion sylweddol arnynt. Awgrymwyd glynu at argymhellion y Swyddog Coed cymwys. Hefyd plannu coed yn eu lle os oedd hynny'n addas.**

TUDALEN 24

Ni chymrodd y Cynghorydd Mrs J Marshall, sydd yn eistedd ar Bwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd, ran yn y drafodaeth ar y ceisiadau uchod na phleidleisio arnynt heblaw am y ceisiadau yn ei Ward ei hun.

101/16 MATERION PRIFFYRDD

Dim.

102/16 MATERION TRWYDDEDU

Trwydded Siop Ryw - Nice 'n' Naughty, 27 Stryd Fawr, Bangor - **PENDERFYNWYD fod Cyngor y Dref yn gwrthwynebu rhoi Trwydded ar y sail gwarchod plant rhag niwed.**

Trwydded Eiddo – Conveniality, 114 Stryd Fawr, Bangor – **Dim gwrthwynebiad.**

103/16 ANFONEBAU I'W TALU

PENDERFYNWYD derbyn a chaniatáu talu'r anfonebau fel eu ceir yn y Rhestr, yn rhoi cyfanswm o £24,054.91.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.40 y.h.